CARTREFI CONWY
creu cymunedau i fod yn falch ohonynt
creating communities to be proud of

# SWYDD DDISGRIFIAD

## 1. MANYLION Y SWYDD

| | |
|---|---|
| **TEITL Y SWYDD** | Trafodwr |
| **YN ATEBOL I'R** | Rheolwr Gosodiadau ac Eiddo |
| **YN ATEBOL YN UNIONGYRCHOL I** | Dim |
| **TÎM** | Datrysiadau Tai Conwy |
| **LLEOLIAD** | Swyddfa Datrysiadau Tai Conwy, 41 Conway Road, Bae Colwyn a Madoc Street, Llandudno os oes angen |
| **MANYLION CYFLOG** | Hyd at Gradd 5 (20 awr yr wythnos) |

## 2. PWRPAS

Cynorthwyo yn weithredol wrth ddatblygu a thyfu cytundebau gyda Landlordiaid Sector Preifat ar y cyd o dan y bartneriaeth Datrysiadau Tai Conwy.
Trafod prydlesi gyda Landlordiaid Preifat yn unol â deddfwriaeth, polisïau a gweithdrefnau.
Sicrhau bod eiddo yn cael eu gosod yn amserol er mwyn cyrraedd targedau partneriaeth.

## 3. DIMENSIYNAU Graddfa ac Amrywiaeth

Trafod gyda landlordiaid ac arwyddo eiddo i'r asiantaeth
Sicrhau bod eiddo o safon dderbyniol ar gyfer gosod
Cydlynu dyraniadau o eiddo gan gynnwys cyfeirio tenantiaid sy'n dod i mewn
Yn gyfrifol am drefnu a chwblhau ymweliadau eiddo mewn perthynas ag eiddo landlordiaid sector preifat
Trefnu, mynychu a chyfrannu at fforymau landlordiaid a chyfarfodydd rhwydwaith er mwyn hyrwyddo'r asiantaeth gosod

## 4. ATEBOLRWYDD

Darparu gwasanaeth proffesiynol o ansawdd uchel i landlordiaid a thenantiaid.

Cynnal gwerthusiadau eiddo a thrafod gyda landlordiaid er mwyn arwyddo eu heiddo i'r asiantaeth a hyrwyddo'r gwasanaethau asiantaeth gosodiadau yn allanol

Cynghori a gweithio gyda landlordiaid i sicrhau bod eu heiddo o safon addas i'w osod

Hyrwyddo'r gwasanaeth atgyweirio a gynigir i landlordiaid drwy Cartrefi Conwy

Ymgymryd â phob agwedd o farchnata eiddo, gan gynnwys llunio manylion

Hwyluso gosod o'r cam ymholi hyd nes bydd y tenant yn symud i mewn, gan gynnwys llunio cytundebau tenantiaeth

Cysylltu â'r holl asiantaethau trydydd parti perthnasol ynghylch atgyfeiriadau a sicrhau rhediad esmwyth y gwasanaeth landlord sector preifat

Arwain a chydlynu cyfeirnodi ar gyfer darpar denantiaid a sicrhau cymhwyster llawn.

Trefnu a chynnal ymweliadau a recriwtio tenantiaid newydd ar gyfer landlordiaid sector preifat.

Gweithredu fel y pwynt cyswllt ar gyfer landlordiaid a thenantiaid a rhoi adborth rheolaidd iddynt

Chwilio am a chynhyrchu busnes newydd lle bynnag y bo modd ac yn unol â gofynion y portffolio eiddo.

Cwblhau'r holl ffurflenni a dogfennau perthnasol gan sicrhau bod ffeiliau yn gyflawn gan gynnwys cynnal a chofnodi rhestr ar gyfer pob eiddo gyda lluniau llawn a darlleniadau mesurydd.

Mynychu a chydlynu ymweliadau gadawiad ac ymweliadau eiddo yn ystod tenantiaeth os oes angen.

Cynorthwyo i ddarparu gwybodaeth/ymateb i ymholiadau gan amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys paratoi tystiolaeth a mynd i'r llys os oes angen.

Trefnu a hwyluso fforymau landlord neu unrhyw gyfarfodydd rhwydweithio eraill yn y diwydiant yn ôl y gofyn.

Cynnal perthnasau gwaith agos gyda rhanddeiliaid gan sicrhau bod eiddo yn cael eu hyrwyddo'n briodol.

Ymgymryd ag unrhyw dasgau rhesymol eraill sy'n gyson â'r swydd.

## 5. ATEBOLRWYDD CORFFORAETHOL

Cefnogi darpariaeth gyffredinol amcanion Cartrefi Conwy i ddarparu gwasanaeth ardderchog, arloesol sy'n wirioneddol ganolbwyntio ar gwsmeriaid.

Cyfrannu at weithgareddau ymgysylltu â'r gymuned a chyfranogiad tenantiaid fel y bo angen.

Fel cynrychiolydd Cartrefi Conwy, hybu a chynnal agwedd a delwedd bositif bob amser.

I hyrwyddo gwerthoedd Cartrefi Conwy yn bositif; herio ffyrdd traddodiadol o weithio, ymddygiad neu sylwadau croes yn adeiladol.

Sicrhau y ceisir adborth er mwyn hysbysu gwelliant mewn gwasanaeth ar gyfer cwsmeriaid a datblygu dulliau mwy effeithiol ac effeithlon o weithio.

Sicrhau cydymffurfio â Gorchymyn Sefydlog Cartrefi Conwy, polisïau, gweithdrefnau, safonau cywirdeb mewn perthynas â statws elusennol y sefydliad a Rheoliadau Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Cefnogi datblygiad, adolygiad a gweithrediad polisïau a gweithdrefnau, yn arbennig:

- Mentrau iechyd, diogelwch a lles
- Egwyddorion y gymdeithas ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Mentrau rheoli risg
- Arferion rheoli perfformiad

Defnyddio technoleg a systemau TGCh yn effeithiol trwy ddatblygu sgiliau priodol, mabwysiadu prosesau busnes effeithiol a chynnal data yn ddiogel ac yn effeithiol.

Gweithio ar y cyd mewn gweithgorau traws swyddogaethol lle bo'r angen.

## 6. CYD-DESTUN GWAITH (yr amgylchedd, y math o offer)

Mae'r swydd hon â gofyniad pwysig i deithio yn lleol ar draws y fwrdeistref ac mewn rhai achosion yn rhanbarthol. Mae gwaith allan o'r swyddfa yn angenrheidiol i gwblhau ymweliadau a phrisiadau fel rhan o reoli landlordiaid yn y sector preifat ac ar gyfer gwirio tenantiaid cymwys. Mae'r defnydd rheolaidd o systemau TGCh a thechnoleg yn un o ofynion y swydd.

## 7. YMREOLAETH A GWNEUD PENDERFYNIADAU (terfynau a rhyddid)

Disgwylir i'r swydd weithredu o fewn polisïau a gweithdrefnau y cytunwyd arnynt ac mae gwaith yn nodweddiadol yn mynd ar ei gyflymder naturiol ei hun yn unol ag anghenion landlordiaid Sector Preifat a ffocws y bartneriaeth Datrysiadau Tai Conwy.

Enghreifftiau o'r penderfyniadau y gall y deilydd swydd eu cymryd:

- Darparu neu gyfeirio cwsmeriaid at yr wybodaeth gywir.
- Penderfynu a yw ymgeisydd yn addas ar gyfer eiddo ar sail y wybodaeth gyfeirnodi
- Penderfynu a yw eiddo o safon addas i'w dderbyn i'r portffolio

Enghreifftiau o benderfyniadau sy'n cael eu cyfeirio yw:

- Unrhyw eitemau sy'n ymwneud â gwariant.
- Penderfyniadau polisi.

Cytunir ar amcanion perfformiad gyda'r Rheolwr Gosod ac Eiddo ac mae perfformiad yn destun adolygu dan y broses ADP y cytunwyd arni.

## 8. CYFATHREBU (y prif gyfathrebu sy'n digwydd. amlder, pwrpas a dull)

| | |
|---|---|
| **MEWNOL** | Cyswllt dyddiol gyda chydweithwyr yn y Bartneriaeth Datrysiadau Tai Conwy.<br>Cyswllt dyddiol dros y ffôn neu drwy e-bost gyda staff Cartrefi Conwy i geisio gwybodaeth ar gyfer tenantiaid, rheolwyr neu gwsmeriaid eraill neu â swyddogaethau eraill (AD/Cyllid/ TGCh/Llywodraethu ac ati) |
| **ALLANOL** | Cyswllt dyddiol â landlordiaid y Sector Breifat<br>Cyswllt dyddiol gyda thenantiaid neu'r cyhoedd i ateb ymholiadau a mynd ar drywydd ceisiadau am gyngor a gwybodaeth am y gwasanaethau a gynigir gan Datrysiadau Tai Conwy.<br>Cyswllt rheolaidd gydag asiantaethau trydydd parti a darparwyr cefnogaeth. |

## 9. MEYSYDD CYMHLETHDOD (beth sy'n ymestyn rhywun fwyaf)

Gall cwrdd â disgwyliadau tenantiaid a landlordiaid olygu peth cymhlethdod ar gyfer y swydd oherwydd nid yw eu disgwyliadau bob amser yn unol ag adnoddau a galluoedd Datrysiadau Tai Conwy a deddfwriaeth.

## 10. CYTUNDEB

| | |
|---|---|
| **Llofnod Deilydd y Swydd:** | **Dyddiad:** |
| **Llofnod Rheolwyr Atebol:** | **Dyddiad:** |

# Manylion am yr Unigolyn
# TRAFODWR SECTOR PREIFAT

| CYMWYSTERAU ACADEMAIDD / PROFFESIYNOL | Hanfodol/Dymunol | Sut bydd yn cael ei asesu |
|---|---|---|
| Cyflawni neu symud tuag at gymhwyster proffesiynol perthnasol (h.y. ARLA, HHSRS, CIH) | Hynod Ddymunol | Ffurflen Gais a Thystysgrifau |
| **GWYBODAETH A PHROFIAD** | | |
| Yn hynod frwdfrydig gyda gallu profedig i weithio tuag at a chyflawni targedau | Hanfodol | Cais / Cyfweliad |
| Profiad o weithio gyda Landlordiaid yn y sector preifat | Hanfodol | Cais / Cyfweliad |
| Gwybodaeth am gyfraith tai sector preifat | Hanfodol | Cais / Cyfweliad |
| Profiad o asesu landlordiaid, eiddo a thenantiaid am addasrwydd | Hanfodol | Cais / Cyfweliad |
| Gwybodaeth am y farchnad dai leol. | Hanfodol | Cais / Cyfweliad |
| **SGILIAU** | | |
| Sgiliau trafod cryf yn seiliedig ar brofiad | Hanfodol | Cyfweliad |
| Microsoft Office; Word; Excel (Lefel Sylfaenol i Ddefnyddwyr) | Hanfodol | Prawf Gallu |
| Lefel dda o sgiliau rhifedd a llythrennedd | Hanfodol | Prawf Gallu |
| Sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol ardderchog | Hanfodol | Cais / Cyfweliad |
| Gallu gweithio ar eich liwt eich hun yn ogystal â bod yn rhan o dîm | Hanfodol | Cyfweliad |
| Y gallu i flaenoriaethu a rheoli eich llwyth gwaith yn effeithiol a gweithio'n dda dan bwysau | Hanfodol | Cais / Cyfweliad |
| Y gallu i ddangos blaengaredd a datblygu ffyrdd newydd o | Hanfodol | Cais / Cyfweliad |

| | | |
|---|---|---|
| weithio | | |
| Trwydded yrru lawn ar gyfer y DU a defnydd o gerbyd at ddibenion gwaith | Hanfodol* | Cais / Cyfweliad |
| Sgiliau Iaith Gymraeg | Hynod Ddymunol | **Cais** |
| **YN GREIDDIOL I CARTREFI CONWY** | | |
| **Gwasanaethu Cwsmeriaid** | Hanfodol | **Cyfweliad** |
| **Cydweithio** | Hanfodol | **Cyfweliad** |
| **Gwneud Penderfyniadau** | Hanfodol | **Cyfweliad** |
| **Gwella** | Hanfodol | **Cyfweliad** |
| **Cyfathrebu** | Hanfodol | **Cyfweliad** |
| **Arwain** | Hanfodol | **Cyfweliad** |
| **Cyflwyno Canlyniadau** | Hanfodol | **Cyfweliad** |

***Lle mae anabledd yn atal hyn, caiff ei adolygu gyda'r ymgeiswyr yn y cyfweliad i gadarnhau a ellir gwneud unrhyw addasiadau rhesymol i'r gofyniad hwn.**

**Mae Cartrefi Conwy wedi ymrwymo i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth yn ein gweithgareddau**